Cyllid & Tollau EM

# Bwletin y Cyflogwr

Eich llwybr i'r newyddion diweddaraf ynghylch y gyflogres

Awst 2014 Rhifyn 49

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

## Croeso

**Croeso i'r ail rifyn o Fwletin y Cyflogwr ar ei newydd wedd – a diolch i'r rheiny a wnaeth gynnig ymateb cadarnhaol i'r diwyg newydd.**

Nod y Bwletin yw rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i fodloni eich rhwymedigaethau cyflogres i CThEM, a darparu hysbysiadau o flaen llaw ynglŷn â newidiadau sydd ar ddod. Fel rhan o'r gefnogaeth honno, mae'r Bwletin yn cynnwys sawl cyfeiriad i arweiniad cyfredol i'ch arbed rhag gorfod ein ffonio.

Mae'r rhifyn hwn yn cynnwys ambell nodyn atgoffa amserol: ar dudalen 2, cewch eich atgoffa i wirio a ydych yn gymwys a hawlio unrhyw Lwfans Cyflogaeth y gallwch ei gael. Gallech hawlio gostyngiad o hyd at £2,000 yn swm cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 y Cyflogwr rydych yn eu talu. Ac ar dudalen 3 mae nodyn atgoffa pwysig ynglŷn â'r ffaith, o fis Hydref ymlaen, y byddwn yn codi cosbau yn ystod y flwyddyn am gyflwyno gwybodaeth ynghylch TWE yn hwyr. Rydych yn siŵr o fod am osgoi'r rheiny.

Yn ogystal â'r nodynnau atgoffa pwysig hyn, gobeithiwn y byddwch yn teimlo bod yr eitemau eraill yn y rhifyn hwn o gymorth, ac yn addysgiadol. Er mwyn helpu i sicrhau nad ydych yn methu diweddariadau yn y dyfodol, rwyf yn eich annog i ymrestru ar gyfer derbyn ein e-byst hysbysu rhad ac am ddim. Mae gwneud hynny'n golygu y byddwn yn gallu anfon e-bost atoch bob tro i rifyn newydd o'r Bwletin gael ei gyhoeddi. Yn syml, ewch i www.hmrc.gov.uk/cymraeg/paye/forms-publications/register.htm i gael mwy o wybodaeth ac er mwyn cofrestru eich manylion.

Ac yn olaf, anelwn at drosglwyddo gwybodaeth glir, gyson ac amserol sy'n addas i gyflogwyr ac sy'n eu cynorthwyo i fodloni eu rhwymedigaethau cyflogres i CThEM. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau, felly, ynglŷn â chynnwys Bwletin y Cyflogwr, neu os hoffech iddo ymdrîn â phwnc penodol, ysgrifennwch ataf yn Alison.bainbridge@hmrc.gsi.gov.uk. Byddem yn ddiolchgar iawn i gael eich adborth.

Alison

Alison Bainbridge
Golygydd

**Cynnwys**


2 Mae 725,000 o gyflogwyr ar eu hennill o ganlyniad i'r Lwfans Cyflogaeth

3 Crynodebau Treth Blynyddol ar gyfer trethdalwyr TWE

4 Cosbau yn ystod y flwyddyn am gyflwyno'n hwyr yn dechrau ym mis Hydref 2014

4 Offer TWE Sylfaenol ar gyfer y flwyddyn dreth 2014 i 2015

5 Slipiau Talu CThEM

5 Gwasanaeth ar-lein Gwarantau ar sail Cyflogaeth (ERS)

6 Cymorth a chefnogaeth ar gyfer busnesau o faint bach a chanolig

6 Arweiniad wedi'i ddiweddaru ar gyfer Apeliadau Tribiwnlysoedd Cyflogaeth a ffurflenni ar gyfer Apeliadau Isafswm Cyflog Cenedlaethol (NMW)

6 Credyd Cynhwysol yn ymledu i Ogledd Orllewin Lloegr

7 Absenoldeb Rhieni ar y Cyd?

8 TWE ar gyfer Cyflogeion – gwasanaeth digidol newydd

8 Rhifau Contractio Allan y cynllun

9 Rhifau ffôn a allai fod o gymorth

# Mae 725,000 o gyflogwyr ar eu hennill o ganlyniad i'r Lwfans Cyflogaeth

# A ydych wedi hawlio eich Lwfans Cyflogaeth eto?

**Peidiwch â cholli allan, gwnewch hynny heddiw.**

Mae 725,000 o gyflogwyr eisoes ar eu hennill ar ôl hawlio Lwfans Cyflogaeth, sy'n cynnig gostyngiad o hyd at £2,000 i fusnesau ac elusenau yn y swm o gyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) Dosbarth 1 y Cyflogwr sy'n rhaid iddynt ei dalu bob blwyddyn.

Mae dros hanner yr holl fusnesau cymwys eisoes wedi hawlio'r Lwfans Cyflogaeth, tri mis wedi iddo gael ei gyflwyno ym mis Ebrill 2014. Canlyniad hynny oedd oddeutu £500 miliwn mewn rhyddhad CYG i gyflogwyr.

### Mae'n dal i fod amser i hawlio eich Lwfans Cyflogaeth ac mae'n hawdd gwneud hynny drwy gyfrwng eich cyflogres neu Offer TWE Sylfaenol CThEM.

Y cyfan sy'n rhaid i chi wneud yw gwirio a ydych yn gymwys cyn hawlio drwy gyfrwng eich cyflogres. Mae'n debygol mai ticio blwch fydd hyn, neu rywbeth tebyg, gan ddibynnu ar eich meddalwedd cyflogres.

Os nad ydych eisoes wedi hawlio eich Lwfans Cyflogaeth, gallwch wneud hynny nawr.

Gallwch hawlio'r Lwfans Cyflogaeth ar ôl dechrau'r flwyddyn dreth cyn belled â bod gan eich busnes neu'ch elusen rwymedigaethau CYG Dosbarth 1 a'i fod/bod yn gymwys ar gyfer hawlio'r Lwfans Cyflogaeth. Er enghraifft, os ydych yn hawlio ym mis Awst, eich didyniad Lwfans Cyflogaeth yn erbyn eich rhwymedigaeth CYG Dosbarth 1 ar gyfer y flwyddyn hyd yn hyn fydd eich rhwymedigaeth CYG Dosbarth 1 y Cyflogwr hyd yn hyn (hyd at yr uchafswm blynyddol o £2,000) fel y dangosir ar eich Cyflwyniad Taliadau Llawn diweddar.

Mae enghraifft o sut i wneud y didyniad CYG wrth hawlio'r Lwfans Cyflogaeth ar ôl dechrau'r flwyddyn dreth i'w gael yn yr arweiniad pellach ynglŷn â hawlio'r Lwfans Cyflogaeth

### Byddwch yn gallu gweld faint o Lwfans Cyflogaeth rydych wedi'i ddefnyddio o dan "Bwrw Golwg ar Rwymedigaethau a Thaliadau TWE" yng ngwasanaeth ar-lein CThEM

Os ydych wedi hawlio'r Lwfans Cyflogaeth, bydd y swm ar gael i fwrw golwg arno ynghyd â'ch gwybodaeth Cyflwyniad Taliadau Llawn (FPS). O bryd i'w gilydd, fodd bynnag, mae'n bosib y bydd oedi byr wrth ddiweddaru elfen y Lwfans Cyflogaeth ar y dangosfwrdd ac felly mae'n bosib y bydd oedi cyn bod eich gwybodaeth FPS (CYG y cyflogwr) yn cael ei chynnwys yn swm eich Lwfans Cyflogaeth a bydd angen i chi wirio ymhellach, ychydig o ddyddiau'n hwyrach.

Gallwch hefyd wirio amserau prosesu ac arweiniad ynghylch pa bryd bydd eich Crynodeb o Daliadau'r Cyflogwr (EPS) a'ch gwybodaeth ynghylch rhwymedigaethau a thaliadau yn cael eu diweddaru.

Ym mis Medi/Hydref, bydd unrhyw gynllun TWE sydd heb wneud cais ar gyfer y Lwfans Cyflogaeth yn derbyn neges electronig Gwasanaeth Hysbysu Generig (GNS) gan CThEM er mwyn eu hannog i wirio a ydynt yn gymwys, ac i hawlio.

**Mae'n bwysig cofio, gellir ond hawlio'r Lwfans Cyflogaeth un waith ar gyfer bob cyflogwr ac nid ar gyfer bob cynllun TWE.** Felly hyd yn oed os yw cyflogwr yn derbyn nodyn atgoffa i hawlio'r Lwfans Cyflogaeth, mae'n rhaid iddo sicrhau ei fod ond yn hawlio un waith yn erbyn un cynllun TWE, yn enwedig os yw'r busnes yn gweithredu cynlluniau lluosog. Gellir ond hawlio'r Lwfans Cyflogaeth un waith ar gyfer pob cyflogwr neu grŵp o gyflogwyr. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn yr arweiniad pellach ynghylch hawlio'r Lwfans Cyflogaeth

### Sut alla' i fwrw golwg ar neges GNS?

Mae negeseuon GNS wedi eu dylunio er mwyn helpu cyflogwyr i gadw eu materion treth i'r funud. Mae'n bwysig, felly, i wirio'r rhain yn rheolaidd. Os ydych wedi cofrestru ar gyfer e-byst atgoffa, byddwch yn derbyn e-bost hysbysu os oes gennych neges GNS newydd i fwrw golwg arni. Bydd yr e-bost yn cynnwys cysylltiad yn uniongyrchol i'r hysbysiad rydych wedi ei dderbyn.

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

Gellir defnyddio TWE Ar-lein er mwyn sefydlu e-byst atgoffa, pan fod rhywbeth newydd ar gael i chi ei weld. Serch hynny, gallwch fwrw golwg ar negeseuon GNS ar unrhyw adeg drwy ddilyn y camau canlynol:

- mewngofnodi i TWE Ar-lein
- defnyddio Gwyliwr Bwrdd Gwaith TWE CThEM
- defnyddio eich meddalwedd masnachol y gyflogres, cyn belled â'i bod yn gydnaws.

Os ydych yn defnyddio Ymgyfnewid Data Electronig (EDI), caiff y neges ei hanfon gan ddefnyddio'r un sianel EDI. Gall defnyddwyr EDI bellach ddewis sut i dderbyn negeseuon GNS. I wneud y penderfyniad, ewch i CThEM Ar-lein, dewiswch y cysylltiad Opsiynau Hysbysiadau Generig a dewiswch rhwng derbyn hysbysiadau GNS drwy gyfrwng EDI, neu'r rhyngrwyd.

# Crynodebau Treth Blynyddol ar gyfer trethdalwyr TWE

O fis Hydref 2014 ymlaen, bydd CThEM yn anfon crynodeb treth personol at oddeutu 24 miliwn o drethdalwyr.

Bydd y crynodeb treth yn dangos i'r unigolyn ym mha fodd y cyfrifwyd ei dreth/threth a'i gyfraniadau/chyfraniadau Yswiriant Gwladol ar gyfer y flwyddyn dreth flaenorol ac yn rhoi gwybodaeth ynglŷn â sut wnaeth y Llywodraeth wario ei drethi/threthi.

**Mae'r crynodeb treth er gwybodaeth yn unig** Bydd yn nodi'n glir nad oes angen i unigolion sy'n derbyn un i weithredu ymhellach.

Caiff oddeutu 16 miliwn o grynodebau treth eu hanfon drwy'r post at drethdalwyr TWE rhwng mis Hydref 2014 a mis Rhagfyr 2014. Bydd unigolion sy'n rhan o'r drefn Hunanasesiad yn derbyn eu crynodebau treth ar-lein.

Bydd yr wybodaeth yn y crynodeb treth yn perthyn i'r flwyddyn dreth a ddaeth i ben 5 Ebrill 2014. Yn ogystal, bydd yn dangos unrhyw CYG a dalwyd gan y cyflogwr i roi syniad cliriach i unigolion o gyfanswm y CYG a dalwyd o ganlyniad i'w cyflogaeth.

Os yw unrhyw un o'ch cyflogeion yn derbyn crynodeb treth ac yn cysylltu â chi am fwy o wybodaeth, dywedwch wrthynt am edrych yn www.gov.uk/annual-tax-summary

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

# Cosbau yn ystod y flwyddyn am gyflwyno'n hwyr yn dechrau ym mis Hydref 2014

O fis Hydref ymlaen, byddwn yn dechrau codi cosbau yn ystod y flwyddyn am gyflwyniadau hwyr, felly **ewch ati i weithredu nawr** os ydych yn dal i dderbyn negeseuon gan y Gwasanaeth Hysbysu Generig (GNS) yn dwyn eich sylw at y ffaith

- eich bod naill ai wedi anfon cyflwyniadau hwyr, neu
- nad ydych wedi anfon y nifer roeddem yn ei ddisgwyl.

Mae gwybodaeth ynglŷn â'r hyn y dylech ei wneud yn ein 'arweiniad ynghylch hysbysiadau ar-lein - y Gwasanaeth Hysbysu Generig'

### Hysbyswch mewn pryd er mwyn osgoi derbyn cosbau

Y dyddiad cau arferol ar gyfer anfon gwybodaeth ynghylch y gyflogres yw ar neu cyn y diwrnod yr ydych yn talu eich cyflogeion. Os ydych yn defnyddio darparwr meddalwedd, sicrhewch eich bod yn anfon eich gwybodaeth ynghylch y gyflogres atynt mewn da bryd, er mwyn cwrdd â'r dyddiad cau.

Mae mwy o wybodaeth ynglŷn â'r ychydig eithriadau yn ein harweiniad, Running payroll – Sending an FPS after payday. Os yw taliad yn gymwys ar gyfer eithriad, cofiwch ddefnyddio'r cod rheswm am gyflwyno'n hwyr ar eich Cyflwyniadau Taliadau Llawn (FPS). Mae manylion llawn yn yr adran 'Late reporting reason' yn ein harweiniad 'What payroll information to report to HMRC'.

### Hysbysiadau generig wedi eu diweddaru

Hyd yn hyn, er mwyn helpu cyflogwyr i osgoi cosbau yn y dyfodol, mae CThEM wedi anfon negeseuon GNS er mwyn helpu cyflogwyr. O fis Hydref ymlaen, os ydych yn derbyn neges GNS am beidio â chyflwyno neu gyflwyno'n hwyr, bydd hynny'n golygu yr ymddengys i chi anfon cyflwyniadau'n hwyr (neu ddim o gwbl), a'i bod yn bosib y bydd yn rhaid i chi dalu cosb.

### Hysbysiadau cosb ac apeliadau ar-lein newydd

Byddwn yn anfon hysbysiadau cosb drwy'r post bob chwarter ar ddiwedd misoedd Gorffennaf, Hydref, Ionawr ac Ebrill. Bydd yr hysbysiadau cosb hyn yn dangos symiau'r cosbau sy'n ddyledus am unrhyw fethiannau i gyflwyno a gododd yn y chwarter hwnnw.

Bydd hysbysiadau cosb yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â sut i apelio os ydych yn credu ei fod yn anghywir neu fod gennych esgus rhesymol dros y methiant. Y dull cyflymaf o apelio yn erbyn hysbysiad cosb rydych wedi'i dderbyn fydd gwneud hynny ar-lein. Y broses ar gyfer gwneud hyn yw dewis y cysylltiad ar gyfer apelio yn erbyn cosb o'ch cyfrif TWE ar-lein. Mae anfon eich apêl drwy ddull electronig yn golygu y byddwch yn derbyn ymateb ar unwaith ynglŷn â'ch apêl, ac ni fydd yn newid y modd y byddwn yn ystyried eich apêl.

Mae mwy o fanylion i'w cael ar ein taflen wybodaeth 'At a glance: late filing penalties and appeals helpsheet'

# Offer TWE Sylfaenol ar gyfer y flwyddyn dreth 2014 i 2015

Mae Offer TWE Sylfaenol wedi ei wella (fersiwn 14.1.14168).

Diweddariad yw hwn i'r fersiwn cyfredol, ac os yw'r diweddariadau awtomatig wedi eu troi ymlaen gennych, a bod eich cyfrifiadur wedi ei gysylltu i'r rhyngrwyd pan fyddwch yn agor Offer TWE Sylfaenol, cewch eu cynghori'n awtomatig bod y diweddariad i'r feddalwedd bellach ar gael.

Er mwyn sicrhau eich bod yn cael eich annog pan gaiff diweddariadau ei ryddhau, dylech ddilyn y camau canlynol:

- Agor yr Offer TWE Sylfaenol ac o'r Hafan, dilyn y cysylltiad 'Gosodiadau'
- Dewis 'Iawn' i 'Diweddariad awtomatig?'
- Sgrolio i waelod y sgrîn a dewis 'Cadw'.

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

# Slipiau Talu CThEM

Pan eich bod yn talu CThEM, a ydych yn defnyddio slip talu ac yn gwneud eich taliad mewn banc neu dros gownter Swyddfa Bost? Os felly, mae'n bwysig eich bod ond yn defnyddio'r slip talu swyddogol a anfonwyd gan CThEM.

Slipiau talu swyddogol CThEM yw'r rheiny o'r Llyfryn Slip Talu P30BC, yr adran ar waelod ffurflenni eraill CThEM, a rhai slipiau talu sengl gyda bonyn wedi'i atodi, a anfonir hefyd gan CThEM.

Peidiwch â llungopïo slipiau talu neu argraffu rhai eich hunain, hyd yn oed y rheiny o feddalwedd y gyflogres, am y gallant gynnwys gwybodaeth anghywir a allai gamgyfeirio eich taliad!

Mae rhai taliadau heb gyrraedd CThEM ond yn hytrach wedi glanio yng nghyfrif dros dro banc o ganlyniad i wybodaeth cyfrif banc anghywir ar slip talu a argraffwyd gan feddalwedd y gyflogres.

Nid manylion anghywir ar y slip talu yn unig sy'n achosi problemau. Mae'n bosib nad yw'r papur yr argraffir y slip talu arno, yr inc a ddefnyddir neu'r ffont yn gydnaws i'w defnyddio â'n systemau; gallai safle'r llinell god a gwybodaeth bwysig arall fod ychydig o'u lle - mae gan bob un o'r rhain y potensial o beri oedi gyda'ch taliad.

Gallai taliad sydd wedi'i oedi oherwydd bod slip talu answyddogol wedi'i ddefnyddio olygu y derbynnir eich taliad ar ôl y dyddiad dyledus, a gallai hynny gostio arian i chi, felly defnyddiwch slipiau talu swyddogol CThEM yn unig neu defnyddiwch wahanol ddull o dalu.

Os nad oes gennych slip talu mae yna ddulliau eraill o dalu i'w gael sy'n gyflymach ac yn fwy diogel. Fel opsiwn arall, os ydych yn talu drwy'r post ac nad oes gennych slip talu wedi'i argraffu gan CThEM, gallwch gwblhau ac argraffu slip talu TWE yn lle hynny, i'w bostio a'i anfon gyda'ch siec at CThEM.

# Gwasanaeth ar-lein Gwarantau Ar Sail Cyflogaeth (ERS)

Ers rhoi'r gwasanaeth ar waith ar 7 Ebrill 2014, mae ambell gwsmer, yn enwedig asiantau, wedi hysbysu ynghylch problemau wrth ddefnyddio'r gwasanaeth hwn. Mae'r rhan fwyaf o'r problemau hyn bellach wedi eu hunioni. Os oes gennych unrhyw broblemau wrth gofrestru neu anfon hysbysiad o Gymhelliad Rheoli Mentrau (EMI) ar-lein, ffoniwch ddesg gwasanaethau ar-lein CThEM (llinell Saesneg yn unig) er mwyn codi'r broblem, ar 0300 200 3600.

Pan fod y dyddiad cau ar gyfer hysbysu ynghylch opsiwn EMI wedi'i golli oherwydd problemau gwasanaethau ar-lein yn unig, bydd gennych esgus rhesymol dros hysbysu'n hwyr. Os yw hyn yn gymwys, ysgrifennwch atom gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar wefan CThEM, yn rhoi enw'r cwmni, y cynllun, yr asiant (os yn gymwys) a chyfeirnod unigryw'r cynllun a ddyrannwyd i'r cynllun gan y system. Yn ogystal, rhowch fanylion y broblem i chi ddod ar ei thraws, yn ogystal ag unrhyw gyfeirnodau desg gymorth ar-lein a roddwyd i chi gan CThEM am hysbysu ynghylch y broblem.

Mae cwestiynau ac atebion cyffredin sy'n perthyn i gofrestru cynlluniau cyfranddaliadau cyflogeion ar y gwasanaeth ERS newydd ar wefan CThEM

### Amserlen gofrestru

Dyma nodyn i'ch atgoffa ynglŷn â'r amserlen rydym yn ei hargymell o ran cofrestru. Gallwch, wrth gwrs, ddewis cofrestru ar unrhyw adeg. Serch hynny, sicrhewch eich bod yn gwneud mewn da bryd cyn 6 Gorffennaf 2015 neu bydd peryg eich bod naill ai'n colli manteision treth neu'n methu â chyflwyno eich datganiad diwedd blwyddyn ar amser ac yna'n derbyn cosbau.

| Cyfnod | Cwmnïau ag enwau yn dechrau â'r llythrennau |
|---|---|
| Ebrill – Mai | A – E |
| Mehefin – Gorffennaf | F – L |
| Awst – Medi | M – S |
| Medi – Hydref | T – Z |

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

# Cymorth a chefnogaeth ar gyfer busnesau o faint bach a chanolig

**Seminar Ar-lein CThEM – *'Penalties for inaccuracies in documents and returns'***

Mae CThEM wedi cynhyrchu cyfres o seminarau ar-lein - 'gweminarau' - rhai 'byw' a rhai a recordiwyd eisoes, er mwyn helpu cwsmeriaid i ddeall rhai o'r rhwymedigaethau sy'n rhaid iddynt eu bodloni.

Mae'n werth nodi'n arbennig ein bod wedi cynhyrchu fideo 'fesul tamaid', gweminar a recordiwyd eisoes a gweminar 'fyw' o'r enw Penalties for inaccuracies in documents and returns. Maent wedi eu hanelu'n bennaf at asiantau, ymgynghorwyr a llyfrifwyr treth, ond mae'n bosib y byddant yn ddefnyddiol hefyd ar gyfer cyflogwyr â chyfrifoldeb dros TWE.

Mae rhestr o'r pynciau sydd ar gael a'r cyfleuster i gofrestru ar gyfer gweminarau CThEM ar gael ar ein gwefan.

# Arweiniad wedi'i ddiweddaru ar gyfer Apeliadau Tribiwnlysoedd Cyflogaeth a ffurflenni ar gyfer Apeliadau Isafswm Cyflog Cenedlaethol (NMW)

Mae Arlywyddion y Tribiwnlysoedd Cyflogaeth yng Nghymru a Lloegr yn ogystal â'r Alban wedi cyflwyno arweiniad a ffurflenni newydd ar gyfer cyflogwyr sy'n dymuno apelio yn erbyn Hysbysiad o Dandaliad NMW sy'n cael ei anfon gan CThEM.

Cafodd yr arweiniad a'r ffurflenni newydd eu cyflwyno o 23 Mehefin 2014 ar gyfer Cymru a Lloegr a'r Alban a gellir eu lawrlwytho o wefan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

# Credyd Cynhwysol yn ymledu i Ogledd Orllewin Lloegr

Parhawyd â chyflwyno Credyd Cynhwysol ar draws Gogledd Orllewin Lloegr o 23 Mehefin 2014 ymlaen. Erbyn diwedd y flwyddyn, pan fydd yr ymlediad hwn wedi ei gwblhau bydd 1 ymhob 8 o Ganolfannau Byd Gwaith Prydain yn cynnig Credyd Cynhwysol.

O 30 Mehefin 2014, dechreuodd y gwasanaeth newydd dderbyn ceisiadau ar y cyd gan gyplau yn Hammersmith, Inverness, Rugby, Caerfaddon a Harrogate. Yn dilyn hynny, o 28 Gorffennaf ymlaen bu Credyd Cynhwysol ar gael ar gyfer cyplau ym mhob un o'r ardaloedd 'byw,' golyga hynny bod Credyd Cynhwysol bellach ar gael ar gyfer hawlwyr sengl neu gyplau mewn 38 ardal yng Nghymru, yr Alban a Lloegr.

Yr Adran Gwaith a Phensiynau sy'n trosglwyddo Credyd Cynhwysol, fydd yn helpu i ddarparu cyflogwyr â gweithluoedd mwy hyblyg.

Daw ystod o fudd-daliadau oedran gwaith ynghyd o dan Credyd Cynhwysol, gan gynnwys Lwfans Ceisio Gwaith, Credydau Treth Gwaith a Budd-dal Tai, gan ffurfio taliad sengl. Mae'n annog y sawl sy'n derbyn budd-daliadau i ddechrau gwaith am gyflog neu, unwaith eu bod yn gweithio, i gynyddu eu horiau drwy sicrhau bod gwaith yn talu ffordd.

Caiff ei dalu i hawlwyr fesul mis ac am fod cyfrifiadau ar gyfer y rheiny sy'n gweithio yn seiliedig ar wybodaeth a ddarperir gan gyflogwyr, mae'n bwysig i wneud cyflwyniadau manwl gywir ac amserol o wybodaeth TWE mewn amser real. Mae'n bosib felly, os hysbysir ynghylch gwybodaeth TWE yn hwyr, y bydd hynny'n effeithio ar y taliad Credydau Cynhwysol ar gyfer y mis hwnnw, gan ddibynnu ar ddyddiad talu misol Credydau Cynhwysol y person hwnnw. Yn ogystal, mae Credyd Cynhwysol yn helpu'r Adran Gwaith a Phensiynau i fynd i'r afael â thwyll neu wallau.

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer cyflogwyr ynghylch Credyd Cynhwysol i'w chael ar y cyfleuster partner toolkit ar GOV.UK gan gynnwys cyflogwr o'r diwydiant gwesteia yn sôn am y manteision y bydd hyn yn ei gynnig i fusnesau.

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

# Absenoldeb Rhieni ar y Cyd

## Beth yw Absenoldeb a Thâl Rhieni ar y Cyd?

Mae'r Llywodraeth yn diwygio'r hawliau tâl ac absenoldeb statudol sydd ar gael ar gyfer rhieni cyflogedig. Ar gyfer babanod y disgwylir iddynt gael eu geni, neu blant mabwysiedig sy'n cael eu paru neu eu gosod ar neu ar ôl 5 Ebrill 2015, bydd hawl newydd, sef Tâl ac Absenoldeb Rhieni ar y Cyd (ShPP/SPL) yn disodli Tâl a Chyflog Tadolaeth Statudol Ychwanegol (ASPP/APL). Bydd rhieni babanod y disgwylir iddynt gael eu geni neu blant mabwysiedig sy'n cael eu paru ar neu cyn 4 Ebrill 2015 yn parhau i fod yn gymwys ar gyfer ASPP ac APL.

Mae ShPP/SPL yn rhoi mwy o ddewis i deuluoedd dros y modd maent yn trefnu gofal plant yn y flwyddyn gyntaf, gan roi'r opsiwn i famau sy'n gweithio i ddod â'u tâl ac absenoldeb mamolaeth i ben yn gynnar ac i rannu unrhyw dâl neu absenoldeb sydd heb ei gymryd â'u partneriaid. Yn yr un modd, bydd mabwysiadwyr yn gallu dod â'u habsenoldeb a'u tâl mabwysiadu i ben yn gynnar er mwyn ymuno â ShPP ac SPL.

Bwriedir iddo alluogi partneriaid i gymryd mwy o ran mewn gofalu am blentyn, ac i helpu'r ddau riant i gydbwyso cyfrifoldebau gofal plant yn well gydag aros mewn gwaith. O ran busnesau, mae hwn yn eu helpu i gadw eu talentau gorau ac yn galluogi cyflogwyr i recriwtio â hyder ei bod yn llai tebygol bydd eu cyflogeion benywaidd yn gadael y gweithle'n gyfan gwbl pan fyddant yn cael plant.

Nid yw'r hawl cyfredol i 52 wythnos o absenoldeb tadolaeth/mamolaeth statudol, gyda 39 wythnos wedi'i thalu, na 2 wythnos o absenoldeb tadolaeth statudol, wedi newid. Fodd bynnag, bydd chwe wythnos gyntaf Tâl Mabwysiadu Statudol yn cynyddu i 90% o enillion wythnosol cyfartalog er mwyn iddo fod yn unol â Thâl Mamolaeth Statudol.

## Sut mae'n gweithio?

Mae'n bosib bydd y sawl sy'n gweithio ac yn rhieni i faban y disgwylir iddo gael ei eni, neu blentyn mabwysiadol sy'n cael ei osod ar neu ar ôl 5 Ebrill, yn gymwys ar gyfer SPL ac ShPP. O dan SPL a ShPP, gall mamau/mabwysiadwyr ddewis dod â'u habsenoldeb a thâl mamolaeth/mabwysiadu i ben yn gynnar (ar unrhyw adeg yn dilyn 2 wythnos ar ôl yr enedigaeth/y gosod), a rhannu'r tâl a'r absenoldeb nad ydynt wedi ei gymryd, gyda'u partneriaid. Gellir stopio a dechrau Absenoldeb a Thâl Rhieni ar y Cyd a gall rhieni fod o'r gwaith ar yr un pryd, os ydynt yn dymuno.

Gall rhieni gymryd eu seibiannau fesul cyfnodau, er enghraifft, 20 wythnos ar gyfer y fam/mabwysiadwr, wedi ei ddilyn gan 20 wythnos ar gyfer y tad/partner, wedi'i ddilyn gan 10 wythnos ar gyfer y fam/mabwysiadwr. Mae'n bosib, felly, mai'r achos fydd bod tâl rhieniol statudol yn cael ei dalu dros un neu ddau gyfnod toredig. Mae'n rhaid i rieni hysbysu eu cyflogwyr ynghylch eu cynlluniau o ran SPL, 8 wythnos cyn iddynt ddod yn gymwys i'w dderbyn, ac mae'n rhaid cymryd pob absenoldeb a thâl wedi'i rannu rhwng yr enedigaeth/y gosod, a phen-blwydd cyntaf y plentyn.

## Beth sy'n rhaid i gyflogwyr wneud?

Disgwyliwn bydd yr hysbysiadau cyntaf ynghylch bwriad i gymryd SPL yn cyrraedd cyflogwyr o fis Chwefror 2015 ymlaen. Bydd y Llywodraeth yn darparu enghraifft o ffurflen ar-lein i rieni ei defnyddio. Mae'n bosib bydd rhai cyflogwyr yn dymuno creu eu gofynion eu hunain ar gyfer y modd y mae eu cyflogeion yn eu hysbysu.

Rydym yn rhagweld y bydd angen i gyflogwyr ddiweddaru systemau cyflogres pan fod hynny'n berthnasol i gynnwys darparu ShPP i gyflogeion sy'n cymryd SPL, ac i alluogi taliadau hyn i gael eu gwneud yn doredig pan fod hynny'n angenrheidiol.

Bydd y Llywodraeth yn darparu offer ar-lein er mwyn gwirio cymhwyster, ac yn argraffu arweiniad manwl ynglŷn â'r rheolau ac ynghylch SPL ac ShPP. Rhan allweddol o SPL yw'r drafodaeth rhwng y cyflogwr a'r cyflogai er mwyn cytuno ynghylch cyfnodau'r SPL a dychwelyd i'r gwaith, a bydd ACAS hefyd yn cyhoeddi arweiniad i gefnogi'r broses hon.

## Genedigaethau cynnar

Mae hawliau i Absenoldeb a Thâl Rhieni ar y Cyd ar gael i rieni cymwys babanod y disgwylir iddynt gael eu geni ar neu ar ôl 05 Ebrill 2015. Bydd ambell faban, wrth gwrs, yn cael ei eni'n gynnar. Cyn belled ag y bod y dyddiad y disgwylir i'r baban gael ei eni ar neu ar ôl 5 Ebrill, bydd rhieni cymwys babanod sy'n cael eu geni'n gynharach yn dal i fod yn gymwys ar gyfer Absenoldeb a Thâl Rhieni ar y cyd.

Mae deddfwriaeth a gynlluniwyd er mwyn caniatáu hawliau tebyg i rieni sy'n gweithio gael eu cyflwyno yng Ngogledd Iwerddon yn cael eu hystyried gan Gynulliad Gogledd Iwerddon ar hyn o bryd.

Golyga hyn na fydd cyflogeion yng Ngogledd Iwerddon yn gallu cyrchu ShPP/L ar gyfer genedigaethau cynnar a byddant yn parhau i wneud cais am Dâl ac Absenoldeb Tadolaeth Statudol Ychwanegol.

Mae canllaw i gyflogwyr sy'n darparu gwybodaeth bellach ar gael ar wefan GOV.UK.

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

# TWE ar gyfer Cyflogeion - gwasanaeth digidol newydd

**Mae TWE i Gyflogeion yn wasanaeth ar-lein newydd ar gyfer unigolion sy'n syrthio o fewn y system TWE a bydd ar gael o ddiwedd mis Medi 2014. Bydd yn galluogi** cyflogeion i fwrw golwg ar, ychwanegu a diwygio manylion ar-lein ynghylch eu ceir cwmni a thanwydd car.

### Beth mae'r gwasanaeth newydd yn ei gynnig?

Yn flaenorol, roedd cyflogeion yn gallu rhoi gwybod i CThEM ynglŷn ag unrhyw newidiadau yn eu hamgylchiadau, gan gynnwys newidiadau i'w buddiannau, drwy ein ffonio neu drwy ysgrifennu atom.

Bydd TWE i Gyflogeion yn galluogi cwsmeriaid i fwrw golwg ar, a gwneud newidiadau a fydd yn altro eu cod treth ar-lein am y tro cyntaf, gan ddechrau ag ystod gyfyngedig o fuddiannau. Yn ystod 2014, ychwanegir ymarferoldeb ychwanegol er mwyn gadael i gwsmeriaid hysbysu ynghylch newidiadau eraill sy'n effeithio ar eu cod treth.

Fel cyflogwr, dylai hynny olygu y byddwch yn cael llai o gwestiynau gan eich cyflogeion am y bydd eu codau treth yn fwy manwl gywir ac i'r funud.

Gall asiantau ddefnyddio'r gwasanaeth ar ran eu cleientiaid yn hwyrach yn y flwyddyn.

### Beth am dalu buddiannau drwy'r gyflogres?

Mae ambell gyflogwr yn talu buddiannau drwy'r gyflogres ar hyn o bryd, sy'n golygu bod y dreth gywir yn cael ei chodi bob wythnos neu fis heb i'r eitem gael ei chynnwys yn y cod TWE. Pan fod cyflogwr yn gweithredu system o dalu drwy'r gyflogres o'r fath, nid oes angen i'r cyflogai roi gwybod i ni ynglŷn â darpariaeth y buddiant.

### Beth am ein cwsmeriaid eraill?

Bydd angen i rai cwsmeriaid ysgrifennu at CThEM, neu siarad â ni dros y ffôn, o hyd.

Serch hynny, drwy drosglwyddo gwasanaethau digidol sydd mor dda fel bod yn well gan bobl eu defnyddio nhw, gallwn ymdrin â llawer o ymholiadau neu drafodion ar-lein. Bydd hyn yn rhyddhau ein hadnoddau er mwyn delio â'r ymholiadau mwy cymhleth rydym yn eu cael neu i gefnogi ein cwsmeriaid sy'n methu â defnyddio ein gwasanaethau digidol.

---

# Rhifau Contractio Allan y Cynllun

O 6 Ebrill 2014, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith ar gyflogwyr i ddangos Rhif Contractio Allan y Cynllun (SCON), yn ychwanegol i Rif Contractio Allan y Cyflogwr (ECON), ar eu Cyflwyniadau Taliadau Llawn (FPS) wrth anfon cyfraniadau Yswiriant Gwladol wedi'u contractio allan ar gyfer cyflogeion a fu'n rhan o gynllun pensiwn wedi'i gontractio allan yn ystod y flwyddyn dreth.

Rydym wedi derbyn nifer o gyflwyniadau pan fod cyflogwyr yn nodi SCON's yn anghywir ar gyfer cynlluniau a ddaeth i ben nifer o flynyddoedd yn ôl.

Cyn anfon eich FPS, sicrhewch bod y SCON rhydych yn ei nodi yn cyfeirio at y cynllun y mae'r unigolyn yn rhan ohono ar hyn o bryd. Mae hwn i'w ganfod ar eich tystysgrif Contractio Allan neu drwy gysylltu â gweinyddwr eich Cynllun Pensiwn.

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio

# Rhifau ffôn a allai fod o gymorth

## Llinell Gymorth – cyngor teleffon a Llinell Archebu – archebwch eich ffurflenni ac arweiniad (ar gyfer cyflogwyr sydd wedi eu heithrio rhag cyflwyno ar-lein)

**Efallai y caiff galwadau eu monitro at ddibenion hyfforddi a rheoli ansawdd**

I gael mynediad at ystod eang o wybodaeth cyflogwyr ar amser sy'n gyfleus i chi, ewch i'r tudalennau Cyflogwyr ar ein gwefan yn **www.hmrc.gov.uk/cymraeg/info-employers.htm**

**Materion cyflogres cyffredinol – er enghraifft TWE, CYG a chredydau treth**

| | | |
|---|---|---|
| Canolfan Gyswllt Cymraeg | **0300 200 1900** | Llun-Gwener 8.30am-5pm<br>Bydd peiriant ateb ar gael y tu allan i'r oriau hyn. |
| Ffacs | **01766 516100** | |

**Canllawiau**

| | |
|---|---|
| Gwefan | www.hmrc.gov.uk/cymraeg/employers/index.htm |

*Ar gyfer cyflogwyr sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw ac sydd ag offer arbennig fel Minicom, mae'r cyfleuster **Ffôn Testun** ar gael ar **08456 021 380**

Os hoffech i CThEM anfon e-bost atoch pan fydd rhifyn newydd o Fwletin y Cyflogwr ar gael, ewch i www.hmrc.gov.uk/cymraeg/paye/forms-publications/register.htm

**Gwasanaeth Saesneg yn unig a geir ar y rhifau isod**

**Cynllun y Diwydiant Adeiladu (CIS)**

| | | |
|---|---|---|
| Llinell Gymorth CIS | **08453 667 899** | Llun-Gwener 8am-8pm, Sadwrn 8am-4pm |
| Minicom | **08453 667 894** | |

**CYG: Pynciau Arbennig**

| | | |
|---|---|---|
| Llinell Gymorth a Llinell Archebu Pensiynau wedi'u contractio allan | **08459 150 150** | Llun-Gwener 8am-5pm |
| Llinell Gymorth a Llinell Archebu ar gyfer pobl dibreswyl yn y DU | **08459 154 811** | Llun-Gwener 8am-5pm |

**Isafswm Cyflog Cenedlaethol (NMW)**

| | | |
|---|---|---|
| Llinell Gymorth Cyflog a Hawliau Gwaith | **0800 917 2368** | Llun-Gwener 8am-8pm, Sadwrn 9am-1pm |
| Llinell Archebu | **08458 450 360** | 7 diwrnod yr wythnos 24 awr |

**Llinellau Cymorth Eraill**

| | | |
|---|---|---|
| Desg Gymorth Gwasanaethau Ar-lein CThEM* | *gan gynnwys cefnogaeth dechnegol ynghylch yr Offer TWE Sylfaenol | |
| Llinell Gymorth | **08456 055 999** | Llun-Gwener 8am-8pm, Sadwrn 8am-4pm |
| e-bost | helpdesk@ir-efile.gov.uk | |
| Ymholiadau ynglyˆn â thaliadau TWE/Hunanasesiad | **08453 667 816** | Llun-Gwener 8am-8pm, Sadwrn 8am-4pm |

Wedi ei archifo - peidiwch â'i ddefnyddio